**Oddi wrth:** Swyddog Gweithdrefnol <Procedural.Officer@ofcom.org.uk>
**Anfonwyd:** 25 Ebrill 2025 10:51
**At:** admin admin <admin@✂>
**Cc:** Gorfodi Diogelwch Ar-lein <OnlineSafetyEnforcement@ofcom.org.uk>
**Pwnc:** Ynghylch: ALLANOL:Ynghylch: Ymchwiliad Ofcom i ✂ o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023

Annwyl Syr/Fadam

Rwy'n cyfeirio at eich e-bost dyddiedig 9 Ebrill 2025 lle roeddech yn ymateb i lythyr tîm Gorfodi Ofcom ar 8 Ebrill 2025 ac yn cyflwyno cwyn weithdrefnol ffurfiol i un o Swyddogion Gweithdrefnol Ofcom.

Rydw i'n un o Swyddogion Gweithdrefnol Ofcom ac mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r awdurdod i mi weithredu fel Swyddog Gweithdrefnol yn yr ymchwiliad hwn. Rwyf yn annibynnol ar dîm achos yr ymchwiliad a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac nid wyf wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad. Bwriad rôl y Swyddog Gweithdrefnol yw sicrhau bod modd mynd i'r afael â materion gweithdrefnol yn gyflym, yn effeithlon ac yn gost-effeithiol, ac yn annibynnol ar dîm yr achos.

Mae gan Ofcom ymchwiliad parhaus o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 ("y Ddeddf") i ✂*[1]* mewn perthynas â chydymffurfio â nifer o adrannau o'r Ddeddf. Mae Ofcom yn dilyn ei Ganllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein[2] ("y Canllawiau Gorfodi") y mae wedi'u cyhoeddi.

Mae eich neges e-bost ar 9 Ebrill 2025 yn cwyno bod tîm Gorfodi Ofcom:

- wedi arddel awdurdodaeth o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein heb sail gyfreithiol ddigonol;
- wedi methu darparu tystiolaeth i gefnogi'r hawliadau risg;
- yn bwriadu cymell cydymffurfiaeth dramor drwy frawychu a bygythiadau gorfodi;
- yn canolbwyntio'n anghymesur ar eich llwyfan er bod targedau domestig mwy perthnasol;
- yn amharod i ymgysylltu'n dryloyw neu'n gymesur mewn rheoleiddio digidol ar draws ffiniau.
  ("y Gŵyn")

Mae'r Canllawiau Gorfodi yn nodi y bydd Swyddog Gweithdrefnol yn delio â chwynion sy'n ymwneud â materion gweithdrefnol fel dyddiadau cau i bartïon ymateb i hysbysiadau gwybodaeth, ceisiadau i olygu gwybodaeth gyfrinachol, materion sy'n ymwneud â gwrandawiadau llafar neu faterion gweithdrefnol sylweddol eraill a allai godi yn ystod ymchwiliad (paragraff 10.5). Mae'r Canllawiau Gorfodi hefyd yn egluro nad yw'r Swyddog Gweithdrefnol yn gallu delio â chwynion sy'n ymwneud â phenderfyniadau Ofcom sy'n ymwneud â materion o bwys, er enghraifft penderfyniadau am gwmpas y ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â chwmpas a sylwedd ymchwiliad (paragraff 10.6).

Rhoddodd tîm yr achos wybodaeth gefndir i mi am ymchwiliad Ofcom a oedd yn cynnwys crynodeb o'i ymchwiliad hyd yma a chronoleg a chopïau o ohebiaeth ddiweddar gyda chi.

**<u>Penderfyniad</u>**
Rwyf wedi ystyried y Gŵyn ac mae'n ymddangos nad yw'n ymwneud â materion gweithdrefnol y gall Swyddog Gweithdrefnol eu hystyried o dan y Canllawiau Gorfodi. Mae'r Gŵyn yn ymwneud â sylwedd ymchwiliad Ofcom i ✂ gan godi materion sylweddol o ran awdurdodaeth, tystiolaeth a chwmpas. Nid yw'r Swyddog Gweithdrefnol yn gallu delio â'r materion hyn o dan y Canllawiau

[1] Bwletin Gorfodi Ofcom 9 Ebrill 2025
[2] Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein

Gorfodi. Rwyf hefyd yn nodi, o dan y Canllawiau Gorfodi, pe bai ymchwiliad Ofcom yn parhau i roi hysbysiad dros dro o dorri amodau, y byddech wedyn yn cael unrhyw dystiolaeth y mae Ofcom yn dibynnu arni ac y byddech yn cael cyfle i ddarparu sylwadau ac unrhyw dystiolaeth ategol i Ofcom am y materion a godwyd mewn unrhyw hysbysiad dros dro o dorri amodau.

Mae tîm Gorfodi Ofcom yn cael copi o'r penderfyniad hwn er gwybodaeth.

**Swyddog Gweithdrefnol Ofcom**

Ofcom
www.ofcom.org.uk

[1] Bwletin Gorfodi Ofcom 9 Ebrill 2025
[2] Canllawiau Gorfodi Diogelwch Ar-lein